# Tasg 4

**(Craidd, sbardun 1)**

Edrychwch ar y cwestiwn a'r ateb:

> **Ble cafodd hi ei hadeiladu?**
> Cafodd hi ei hadeiladu ar ynys Tasmania, Awstralia.

Mae'r gair 'llong' yn fenywaidd, felly rhaid rhoi 'h' cyn **adeiladu**.

Mae'r gair 'cwch' yn wrywaidd, felly does dim angen 'h' cyn **adeiladu.**

Llenwch y tabl hwn:

| | | |
|---|---|---|
| **enwi** | Cafodd y llong ei ................... | Cafodd y cwch ei .................... |
| **angori** | Cafodd y llong ei .................... | Cafodd y cwch ei .................... |
| **osgoi** | Cafodd y llong ei .................... | Cafodd y cwch ei .................... |

Beth sy'n arbennig am **enwi, angori, osgoi** ac **adeiladu**?